Taflen Ffeithiau ar Ddigartrefedd

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch Digartrefedd. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth; ac, os ydych wedi gwneud Cais am Dŷ i'r Cyngor neu i Gymdeithas Dai, dylech hefyd ddarllen ein taflen ffeithiau ar Geisiadau Tai.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb o dan y gyfraith i helpu rhai pobl sydd yn neu a allai fynd yn ddigartref.

Dim ond rhai pobl (a elwir yn Bobl mewn Angen Blaenoriaeth) sydd â hawl i gael llety brys a help gyda'u pethau personol. Enghreifftiau yw pobl gyda phlant sy'n ddibynnol arnynt, a phobl sy'n anabl.

Ni fydd gan y Cyngor gymaint o gyfrifoldeb os credir eich bod wedi gwneud eich hun yn ddigartref yn fwriadol ('bwriadol ddigartref').

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Gall edrych i weld a ydyw'r Cyngor wedi:

- eich atal rhag gwneud cais digartrefedd neu wedi methu cydnabod y gallech fod yn ddigartref, e.e. mae eich cais am dŷ yn dweud bod eich eiddo wedi'i orlenwi.
- methu cynnig llety brys ichi os ydych o fewn y grŵp sydd â hawl iddo, e.e. rydych yn feichiog.
- edrych ar eich sefyllfa digartrefedd yn iawn, e.e. os cawsoch eich troi allan, a ydyw'r Cyngor wedi cysylltu â'ch landlord blaenorol i gael gwybod pam.
- cymryd rhy hir i gyrraedd penderfyniad ar eich achos, e.e. dylai ddod i benderfyniad o fewn 33 diwrnod gwaith.
- methu rhoi penderfyniad ysgrifenedig ichi yn dweud: i) a fydd yn eich helpu, (ii) os na, pam ddim, (iii) eich hawl i apelio.
- edrych ar ôl eich dodrefn a'ch pethau personol, e.e. wedi trefnu lle i'w storio.
- methu delio (neu wedi oedi'n afresymol yn delio) gyda'ch achos yn iawn

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu:

- gorfodi'r Cyngor i ddarparu llety ichi.
- gwrth-droi penderfyniad a wnaed yn briodol ar eich achos digartrefedd.

Materion i gadw mewn cof

Fel arfer bydd gan y Cyngor ond gyfrifoldeb tuag at y bobl sydd fel arfer yn gweithio neu'n byw yn ei ardal (mae ganddynt gysylltiad lleol). Mae rhai eithriadau, e.e. os ydych yn dianc o drais.

Mae gan hyd yn oed bobl nad ydynt mewn Angen Blaenoriaeth hawl i dderbyn cyngor a chymorth gan y Cyngor ar eu sefyllfa dai.

Further information

Efallai y byddwch am ystyried cysylltu â'r mudiadau canlynol am gyngor:

Shelter Cymru sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar dai. Gallwch eu ffonio ar **0845 075 5005** neu fynd i'w gwefan yn www.sheltercymru.org.uk.
Cyngor ar Bopeth Cymru sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar ystod o broblemau (gan gynnwys digartrefedd). Gallwch gysylltu â nhw drwy fynd ar y we yn www.citizensadvice.org.uk (a dewis opsiwn tudalen 'Cymru') a chofnodi eich cod post i gael manylion ar sut i gysylltu â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol agosaf.
Mae **Canolfan Gyfreithiol Caerdydd** yn rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar ystod o broblemau (gan gynnwys digartrefedd) i bobl sy'n byw a gweithio yn Ninas a Sir Caerdydd yn unig. Gallwch eu ffonio ar **029 20498117** neu fynd i'w gwefan yn www.lawcentres.org.uk . Mae Ffederasiwn y Canolfannau Cyfreithiol hefyd yn rhedeg llinell gymorth gyfreithiol gymunedol (ar gyfer Cymru a Lloegr) ar **0845 345 4345** neu drwy fynd i'r we yn www.communitylegaladvice.org.uk.
Mae **Cymorth i Ferched Cymru** yn rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar ystod o broblemau (gan gynnwys digartrefedd) i rai sy'n dianc o drais yn y cartref. Gallwch eu ffonio ar **0808 8010 800** neu drwy fynd i'r we yn www.welshwomensaid.org.uk

Bydd eich **Aelod lleol o'r Cynulliad** hefyd efallai'n gallu rhoi cyngor a chymorth ichi.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.
Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ